

Adroddiad i'r: CABINET

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Medi 2012

Aelod Cabinet Arwain: y Cynghorydd Julian Thompson-Hill

Swyddog Arwain: Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau

Teitl: Adroddiad Cyllid

1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar arbedion a chyllideb refeniw'r Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 fel ar ddiwedd mis Gorffennaf 2012. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gryno am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn cynghori'r aelodau am fformat y cyllidebau ac mae'n nodi'r strwythur adrodd am y flwyddyn i ddod. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wyriadau sylweddol oddi wrth y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2012/13 fel y'i diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi'r targedau cyllidebau ac arbedion am y flwyddyn ac yn gwneud cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

4 Manylion yr adroddiad

Cyflwynir y rhagolwg diweddaraf o'r gyllideb refeniw yn **Atodiad 1** ac mae'n dangos gorwariant bach ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys cyllidebau corfforaethol ac ysgolion.

Mae'r crynodeb Cyfrif Refeniw Tai hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond cronfa ar wahân ydy hwn ac nid yw'n rhan o gyllideb refeniw'r cyngor.

Mae **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd diweddaraf mewn perthynas â'r arbedion a'r pwysau y cytunwyd arnynt yn rhan o broses gosod cyllideb 2012/13. I gyd, cytunwyd ar arbedion net o £3.443m a chyflawnwyd £1.774m (58%) gyda £1.669m (42%) wedi'i ddosbarthu yn mynd rhagddo. Er bod eitemau wedi'u dosbarthu o hyd fel rhai sy'n 'mynd rhagddynt', ystyrir bod pob un o'r arbedion a restrir yn gyraeddadwy a dylai'r

ganran o arbedion a ddosbarthir fel rhai a gyflawnwyd cynyddu'n raddol dros y misoedd i ddod.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol ar gyllidebau cyfalaf a refeniw'r cyngor a chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol.

6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Defnyddir y rhan hon o'r adroddiad i amlygu unrhyw amrywiannau allweddol o'r targedau arbedion neu gyllideb, risgiau neu arbedion ychwanegol posibl a allai godi drwy gydol y flwyddyn ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fwy cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r sefyllfa hyd ddiwedd mis Gorffennaf yn parhau i ddangos ychydig iawn o amrywiannau o'r cyllidebau y cytunwyd arnynt ond disgrifir isod y meysydd y mae angen eu hegluro ymhellach.

Bydd gofyn i bob adran nodi'n glir y tybiaethau a'r cynnydd mewn perthynas â defnyddio balansau refeniw a ddygwyd ymlaen o 2011/12 i'w cynnwys ymlaen yn yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref.

Cyllideb Refeniw

Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden - Mae'r gyllideb ar gyfer Canolfan Oaktree sef Canolfan Plant Integredig y Rhyl o dan bwysau am iddi golli £80k o gyllid grant. Er bod y gwasanaeth yn gweithredu i leihau ei wariant, mae'n debygol y bydd y cyfleuster hwn yn gorwario £40k a chytunwyd y bydd hwn yn cael ei ariannu'n gorfforaethol eleni. Bydd pwysau blynyddoedd yn y dyfodol yn cael sylw yn ystod y broses o osod cyllideb / herio gwasanaeth.

Yn Adran y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio, mae £50k o bwysau posibl ar gyllideb refeniw Adfywio'r Rhyl yn ôl adroddiad mis Gorffennaf. Cynigir bod rhan o'r £91k o danwariant Adfywio o 2011/12 y cael ei rollo ymlaen i gyllido'r costau hyn yn 12/13.

Dangosir bod cyllidebau Gwasanaethau Oedolion wedi'u mantoli ond ar hyn o bryd tybir y bydd rhyw £293k o'r Gronfa Wrth Gefn Cefnogi Pobl yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r pwysau yn y flwyddyn. Roedd hyn yn rhan o'r strategaeth y cytunwyd arni mewn cyfarfodydd Herio Gwasanaeth blaenorol a'r rheswm penodol dros greu'r Gronfa Wrth Gefn yn y lle cyntaf.

Mae gan Adran Gwasanaethau'r Amgylchedd darged arbedion cyllideb o £771k ar gyfer 12/13 ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni'r lefel uchel hon o arbedion.

Mae cyllidebau Moderneiddio Addysg a Gofal Cwsmeriaid yn rhagweld tanwariant bach o £45k ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn wargedion yn ystod y flwyddyn oherwydd ailstrwythuro staff, sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd.

Ysgolion – fel ym mis Gorffennaf, mae'r balansau ysgol a ragwelwyd ar gyfer 2012/13 yn dal i fod yn £1.757m. Mae hwn yn symudiad negyddol o £44k o'r balansau o £1.801m a ddygwyd ymlaen o 2011/12. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn gweithio gyda dwy ysgol sydd mewn anhawster ariannol gyda chyfanswm balansau diffyg o £401k. Mae gan yr ysgolion hyn gynlluniau adfer yn eu lle ac maen nhw wrthi'n gweithio tuag at y targedau a osodwyd yn y cynlluniau hyn.

Cynllun Cyfalaf – Yr alldro a amcangyfrifir yw £3.8m ar ddiwedd mis Gorffennaf mewn perthynas â Chynllun o £37.3m y cytunwyd arno. Dengys **Atodiad 3** grynodeb o'r cynllun cyfredol a'r modd y caiff ei gyllido. Dangosir trosolwg ar brosiectau cyfalaf mawr yn **Atodiad 4**.

Cyfrif Refeniw Tai (CRT) – Mae'r rhagolwg CRT diweddaraf yn dangos diffyg canol blwyddyn wedi'i gynllunio o £226k. Mae hyn yn cynnwys ariannu gwariant cyfalaf o £602k o refeniw yn rhan o'r Cynllun Busnes Stoc Dai y cytunwyd arno ar gyfer 2012/13. Mae'r alldro diweddaraf yn cynnwys rhagolygon gwariant cynyddol ar linellau rheoli a goruchwyllo, lle mae rhai costau untro i gefnogi gwella gwasanaeth wedi'u cynnwys. Rhagwelir hefyd y bydd gwariant ar atgyweiriadau uwchlaw'r gyllideb ar hyn o bryd ond mae hyn yn cael sylw a gallai leihau yn y misoedd i ddod. Mae'r Cynllun Busnes yn ddichonadwy o hyd ac, yn seiliedig ar y rhagolwg diweddaraf, y balans CRT a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen fydd £709k.

Rhagwelir y bydd y Cynllun Cyfalaf Tai'n gwario £7.6m yn 2012/13 sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan fenthycia darbodus (£4.5m). Mae cyflawniad Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2012/13 yn parhau ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed ac mae arolwg manwl o gyflwr stoc yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Bydd yr arolwg hwn yn helpu i lywio tybiaethau cynllunio busnes a buddsoddi cyfalaf wrth symud ymlaen.

Dangosir crynodeb o'r sefyllfa CRT ddiweddaraf yn y tabl isod.

Crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai:

<u>Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai 2012/13</u> <u>Gorffennaf 2012</u>	
Gwariant	£'000
Rheoli a Chynnal a Chadw Tai	5,635
Taliadau Cyfalaf	2,661
Cymhorthdal	3,148
Darpariaeth ar gyfer Dyledion Gwael	29
Cyfraniad Refeniw at Gyfalaf	602
Cyfanswm Gwariant	12,075
Incwm	
Rhenti	11,752

Garejis	159
Llog	9
Cyfanswm Incwm	11,920
Gwarged Canol Blwyddyn /(Diffyg)	155
Balans CRT a Ddygwyd Ymlaen	709

<u>Cynllun Cyfalaf Tai</u> <u>Gorffennaf 2012</u>		£,000
Gwariant a Gynllunnir		7,575
Ariannwyd gan:		
Lwfans Atgyweiriadau Mawr		2,400
Cyfraniad Refeniw		602
Derbyniadau Cyfalaf		17
Benthyca Darbodus		4,556
Cyfanswm		7,575

7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y cabinet a chytunwyd yn ffurfiol arni gan y cyngor ar ôl cylch helaeth o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y cyngor ar ôl craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac argymhelliad gan y cabinet. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr ffederasiwn tenantiaid.

8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 ac mae'n arddangos y ffordd y bydd y Cabinet yn cael gwybod am gyllid y cyngor drwy gydol y flwyddyn. Disgwylir i wasanaethau gyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt drwy'r prosesau gosod cyllideb a Heriau Gwasanaeth ac ar hyn o bryd maent fel petaent ar y trywydd cywir i'w cyflawni. Bydd yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf fanwl mewn perthynas â defnyddio balansau a ddygwyd ymlaen o 2011/12. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw wargedion canol blwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig.

Sylwadau Economaidd a'r Diweddaraf am Reoli Trysorlys

Mae'r marchnadoedd ariannol yn dal yn hynod gyfnewidiol ac mae hyn yn parhau i gyfyngu ar nifer y sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi gyda hwy ac ar hyd y buddsoddiadau y gall y cyngor eu gwneud. Mae'r ddau beth hyn yn

cyfyngu ar yr enillion y gall y cyngor eu cyflawni. Wrth i'r ansicrwydd yn y marchnadoedd barhau, mae polisi'r cyngor yn cyfyngu ar y rhan fwyaf o fuddsoddiadau newydd i adneuon dros nos. Mae'r strategaeth hon o wneud buddsoddiadau tymor byr iawn yn debygol o barhau am y tymor canolog.

Cyfanswm y benthyciadau ar hyn o bryd yw £134.39m ar gyfradd gyfartalog o 5.75% a chyfanswm y buddsoddiadau yw £22.0m ar gyfradd gyfartalog o 0.76%.

9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Hwn yw'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu ac os bydd yn methu â chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni, bydd mwy o bwysau byth ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd rheoli a monitro'r gyllideb yn effeithiol a rhoi gwybod am amrywiannau'n gynnwys yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ymdrin â phrosiectau cyfalaf a gallant gynnwys gor-redeg amser neu wariant, problemau cyllid ac ystyriaethau eraill heblaw rhai ariannol. Mae mecanwaith cymeradwyo cadarn ac adrodd a monitro ariannol agos, ynghyd â gweithdrefnau rheoli prosiect effeithiol, yn helpu i leihau'r risgiau hyn cymaint â phosibl.

Mae'r CRT yn buddsoddi cyfalaf sylweddol i wella'r stoc dai ac mae'n defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciad fod yn fforddiadwy ac mae'r monitro rheolaidd a'r cymeradwyo blynyddol a'r asesiad dichonoldeb o'r Cynllun Busnes Stoc Dai yn sicrhau bod hyn yn digwydd.

10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gofyn i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.